

TABL 1 – DISGRIFYDDION SAFON IAITH GYMRAEG

LEFELAU	Gwrando/Siarad	Ysgrifennu	Darllen
Lefel 4 Uwch	GALLU arwain a chyfrannu'n effeithiol i ddarlithoedd/ cyfarfodydd a seminarau/ tiwtorialau GALLU ymdrin â materion cymhleth a chynhennus gyda gwybodaeth arbenigol. GALLU deall ymadroddion idiomatig ac ymadroddion llafar GALLU cyflwyno disgrifiadau, neu ddadleuon rhugl	GALLU gwneud nodiadau llawn a chywir (gan gynnwys PowerPoint) a pharhau i gyfrannu mewn darlith/cyfarfod neu seminar GALLU ysgrifennu'n glir a rhugl mewn arddull briodol GALLU ysgrifennu llythyron, adroddiadau neu erthyglau cymhleth GALLU ysgrifennu crynodebau ac adolygiadau ar faterion proffesiynol	GALLU deall gohebiaeth mewn iaith ansafonol GALLU deall adroddiadau ac erthyglau gan gynnwys syniadau cymhleth wedi'u mynegi mewn iaith gymhleth GALLU darllen pob math o iaith ysgrifenedig gan gynnwys testunau arbenigol fel llawlyfrau, gwaith cwrs, asesiadau, aseiniadau a thraethodau estynedig.
Lefel 3 Canolradd	GALLU cyfrannu i ddarlithoedd a chyfarfodydd GALLU dadlau dros neu yn erbyn achos GALLU cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon GALLU deall llafaredd estynedig a darlithoedd GALLU dilyn dadleuon cymhleth GALLU rhyngweithio â rhywfaint o ruglder a naturioldeb sy'n gwneud rhyngweithio gyda siaradwyr iaith gyntaf yn bosibl GALLU cyflwyno disgrifiadau clir a manwl ar amrywiaeth eang o bynciau	GALLU ymdrin â cheisiadau arferol am wybodaeth neu wasanaethau GALLU ysgrifennu testun clir a manwl ar amrywiaeth eang o bynciau perthnasol i'w bwnc/phwnc a'i ddi-ddordebau/diddordebau GALLU ysgrifennu traethawd neu adroddiad, gan drosglwyddo gwybodaeth neu roi rhesymau dros neu yn erbyn barn benodol	GALLU deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, adroddiadau a llenyddiaeth ffeithiol ynghylch gwahanol gynnyrch GALLU darllen erthyglau/adroddiadau
Lefel 2 Sylfaen	GALLU disgrifio profiadau a digwyddiadau syml GALLU rhoi barn a nodi cynlluniau syml GALLU datgan gofynion gwaith syml GALLU gofyn/ateb cwestiynau syml GALLU cynnig cyngor syml i gleientiaid GALLU deall prif bwyntiau trafodaeth GALLU cael sgwrs heb ragbaratoi	GALLU gwneud nodiadau syml mewn cyfarfod neu seminar lle bo'r pwnc yn gyfarwydd ac yn rhagweladwy GALLU ysgrifennu testunau cysylltiol syml ar bynciau cyfarwydd GALLU cyfnewid gwybodaeth ar bynciau a gweithgareddau cyfarwydd	GALLU deall llythyrau ac adroddiadau/erthyglau nad ydynt yn rhai arferol GALLU deall testun sy'n defnyddio iaith bob dydd perthnasol yn bennaf GALLU deall adroddiadau byr, syml neu ddisgrifiadau cynnyrch ar faterion cyfarwydd
Lefel 1 Mynediad	GALLU defnyddio ac adnabod brawddegau ac ymadroddion syml GALLU ymdrin â sgysiau rhyngweithiol byr iawn ond dim digon i gadw'r sgwrs i fynd GALLU cymryd a throsglwyddo negeseuon syml	GALLU ysgrifennu ymholiad/cais arferol syml ar gyfer cydweithiwr GALLU ysgrifennu nodyn byr i gydweithiwr GALLU ysgrifennu nodiadau a negeseuon byr, syml GALLU llenwi ffurflenni â manylion syml	GALLU deall a darllen testunau byr iawn a syml GALLU canfod gwybodaeth benodol, rhagweladwy mewn deunyddiau bob dydd megis hysbysebion, prosbectysau ac amserlenni
Lefel 0	Dim sgiliau iaith Gymraeg o gwbl	Dim sgiliau iaith Gymraeg o gwbl	Dim sgiliau iaith Gymraeg o gwbl

